***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 908 (Cy. 39 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 143(1) o, a pharagraff 2(8) o Atodlen 6 i, Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio rheoliadau

**2.**—(1) Diwygir Rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989(**3**) yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Ym mharagraff (1A), ar ôl "1st April 1995", mewnosoder "or 1st April 2000".

(3) Ym mharagraff (2A), yn is-baragraff (a), ar ôl "in the case of", mewnsoder "a defence hereditament,".

(4) Ym mharagraff (3), ar ôl y diffiniad o "the appropriate rate", mewnsoder ""‘defence hereditament" means a hereditament which is occupied (or if unoccupied, owned) by the Secretary of State for Defence";

(5) Ym mharagraff (3), ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "educational hereditament" —

(a) yn lle "section 41 of the Education Act 1944 as read with section 14 of the Further and Higher Education Act 1992 ("the 1992 Act")", rhodder "section 2 of the Education Act 1996 ("the 1996 Act")";

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd paragraff 2(8) o Atodlen 6 gan baragraff 38(8) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Gweler adran 146(6) ar gyfer y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1989/2303, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/544 ac O.S. 1994/3122.

(b) ar ôl "the Education Reform Act 1988", mewnosoder "("the 1988 Act")"; ac

(c) yn is-baragraff (ii), yn lle "the 1992 Act", rhodder "the Further and Higher Education Act 1992 ("the 1992 Act")".

(6) Ym mharagraff (3), yn y diffiniad o "school", yn lle "section 114(1) of the 1944 Act", rhodder "section 4 of the 1996 Act".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.(**4**)

*D Ekis Thomas*
27 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i werth ardrethol hereditament annomestig gael ei ganfod drwy gyfeirio at y rhent yr amcangyfrifir y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl wrth osod yr hereditament o flwyddyn i flwyddyn.

Mae rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 yn darparu ar gyfer prisio drwy gyfeirio at gost dybiannol adeiladu hereditament ("sail y contractiwr"), lle nad oes dystiolaeth fwy uniongyrchol o werth rhent, ac yn pennu'r gyfradd ganrannol flynyddol sydd i'w chymhwyso at y gost adeiladu dybiannol.

Mae paragraff (1A) o Reoliad 2 yn cymhwyso'r gyfradd benodedig at hereditament a ddangosir ar restr ardrethu annomestig a luniwyd ar 1 Ebrill 1995 ac mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cymhwysiad hwnnw i hereditament a ddangosir ar restr ardrethu annomestig Cymru sydd i'w llunio ar 1 Ebrill 2000.

Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu "defence hereditament" (fel y'i ddiffinnir) i'r mathau o hereditament y pennir ym mharagraff (2A) (b) o Reoliad 2 ac yn diwygio'r diffiniadau o "educational hereditament" a "school" yn sgil Deddf Addysg 1996.